ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ganllawiau drafft gwrth-fwlio'

## Gweithdy 2:
## Adroddiad ar ddysgwyr ysgolion cynradd

Tachwedd 2018

© Hawlfraint y Goron 2019
WG37979 ISBN digidol 978 1 83876 330 5

# Cynnwys


| **Adran** | **Rhif tudalen** |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad i'r ymgynghoriad** | **3** |
| **2. Am Dynamix** | **3** |
| **3. Crynodeb** | **4** |
| **4. Dulliau** | **7** |
| **5. Canlyniadau** | **10** |
| C1+C2 esbonio’n glir/hawdd eu deall? | 10 |
| C3 Canllawiau yn ymgysylltu gydag asiantaethau cefnogi | 12 |
| C4 Oes unrhyw beth ar goll? | 13 |
| C5 Pa mor ddefnyddiol yw’r canllawiau? | 14 |
| C6 Pa enw ydych chi’n ei ffafrio ar gyfer y canllawiau? | 16 |
| C7 Effaith ar y Gymraeg | 17 |
| C8 Unrhyw beth arall hoffech ei ddweud | 18 |
| **6. Themâu** | **21** |

# 1. Cyflwyniad i'r ymgynghoriad

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Dynamix gynnal ymgynghoriad gyda dysgwyr ysgolion cynradd ac uwchradd ar y canllawiau drafft gwrth-fwlio 2018.

Cafodd cyfres o gwestiynau eu gosod gan Lywodraeth Cymru a gofynnwyd i Dynamix drefnu gweithdai er mwyn casglu barn a sylwadau ar y canllawiau drafft newydd mewn ffordd gyfranogol a chyffrous.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y canlyniadau a gasglwyd mewn cyfres o weithdai a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2018 gyda 45 o ddisgyblion cynradd rhwng 7-11 oed fel rhan o'r 'Digwyddiad Sgwrs Fawr' a oedd wedi ei drefnu gan dîm 'Cyfranogaeth a Hawliau Plant' Cyngor Sir Abertawe.

Roedd mynychwyr y digwyddiad hwn yn dod o ysgolion dwy ffrwd (Saesneg a Chymraeg) ac ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws ardal awdurdod lleol Abertawe ac roedd staff addysgu yno i gynnig cefnogaeth bellach ac i sicrhau bod y broses yn rhedeg yn llyfn.

Gan ddefnyddio'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad ffurfiol fel sail ar gyfer trafodaeth, roedd Dynamix wedi gosod nifer o gwestiynau i'r cyfranogwyr gan ddefnyddio terminoleg addas i blant, er mwyn gasglu sylwadau a barn ar y canllawiau drafft mewn ffordd gyfranogol a chyffrous.

# 2. Am Dynamix

Mae Dynamix yn fenter gymdeithasol Gymreig sydd yn darparu addysg ac yn arbenigo mewn rhoi llais i bobl gan ddefnyddio dulliau cyfranogol i annog ymwneud mewn ffordd gynhwysol.

Mae Dynamix yn defnyddio gweithgareddau ymgynghorol, cyfranogol i sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhannu eu barn. Defnyddir ystod o dechnegau er mwyn ystyried anghenion pawb a ffyrdd gwahanol o roi barn, boed hynny yn gorfforol, gweledol, ar lafar neu yn ysgrifenedig. Mae hyn yn golygu bod cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddigon hyderus i gymryd rhan yn llawn yn y profiad wrth gynnal ymgynghoriad wedi ei hwyluso, i deimlo'n gynwysedig ac i wybod bod eu barn a'u sylwadau yn cyfri ac yn cael eu hystyried.

Caiff gwybodaeth ei gasglu mewn ffyrdd ansafonol ac felly nid yw dadansoddiad ystadegol yn addas. Yn hytrach mae'n cynnig naratif ansoddol gyfoethog, dealltwriaeth ddefnyddiol a gwybodaeth werthfawr, a phrofiad cadarnhaol i'r rheiny sydd yn cymryd rhan.

Mae methodoleg Dynamix yn cael ei ategu gan ein gwerthoedd o ymrwymiad drwy gyfranogiad a mwynhad, parch, cynhwysiad, cydweithredu a grymuso ynghyd a'r gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol. Mae Dynamix hefyd yn eiriolwr cryf o'r

12 Egwyddorion Cenedlaethol[1] ar gyfer Ymgysylltu Gyda'r Cyhoedd a'r 7 Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc[2].

# 3. Crynodeb

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o'r canlyniadau o'r 8 cwestiwn a ofynnwyd i'r disgyblion yn ystod y gweithdai. Gellir gweld y canlyniadau llawn, y sylwadau a'r canfyddiadau o dudalen 10 ymlaen.

**Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau drafft gwrth-fwlio wedi eu hesbonio'n glir?**

| Opsiynau | Canran pleidlais |
|---|---|
| Ydyn, maent wedi eu hesbonio'n glir | 65% |
| Na, nid ydynt yn glir | 0 |
| Ddim yn siŵr / Mae'n 'OK' | 35% |

**Cwestiwn 2: A yw'r canllawiau drafft gwrth-fwlio yn hawdd eu deall?**

| Opsiynau | Canran pleidlais |
|---|---|
| Ydyn, maent yn hawdd eu deall | 36% |
| Na, nid ydynt yn hawdd eu deall | 40% |
| Ddim yn siŵr / Mae'n 'OK' | 14% |

**Cwestiwn 3: A yw'r canllawiau gwrth-fwlio drafft yn ymgysylltu gyda phrosiectau eraill rydych chi'n gwybod amdanynt sydd yn cefnogi plant a phobl ifanc?**

| YDYN | NA | DDIM YN SIŴR |
|---|---|---|
| Childline x 8<br>Ysgol x 3<br>Athrawon x 2<br>Meic x 2<br>Drama x 4<br>NSPCC[3] x 3<br>Pêl-rwyd x 2<br>Pêl-droed x 2<br>ICC x 2<br>Gymnasteg x 6<br>Fy Swydd Ysgol x 2<br>Karate<br>Heddlu<br>Move's<br>Sgowtiaid<br>Siarad ar yr X Box<br>Dawns<br>Chwarae rygbi | Nofio<br>Côr<br>Clwb Brecwast<br>Grwpiau X Box<br>Ffrangeg<br>Clwb Ieuenctid x 2<br>Clwb pêl-droed<br>Dawns x 2<br>Clybiau Coginio<br>Clwb ar ôl Ysgol | Coginio x 2<br>Dawns<br>Gymnasteg<br>Clwb Gwyddoniaeth<br>Gwyllt<br>Afancod, Cybiau a Sgowtiaid |

[1] https://participation.cymru/en/principles/
[2] http://www.childreninwales.org.uk/our-work/participation/participation-standards/
[3] National Society for the Prevention of Cruelty to Children

### Cwestiwn 4. Oes unrhyw beth ar goll y dylai gael ei ychwanegu?

**Detholiad o sylwadau gan gyfranogwyr**

- ☐ *“Gwnewch gartŵn i rai bach, i ddweud "dyma pwy allwch siarad gyda nhw" "*
- ☐ *“Cael mwy o staff i rannu'r newyddion ar fwlio”*
- ☐ *“Dylai fod enghreifftiau o lefydd lle allwch fynd i siarad am eich gofidiau”*
- ☐ *“Sut i gynnwys athrawon”*
- ☐ *“Yn ysgol dylai fod clwb sydd yn stopio bwlio ac yn rhoi cosbau gwael i fwlis"*
- ☐ *“Mwy o help!!! Yn gynharach!!!”*
- ☐ *“Mae gan bob plentyn yr hawl i gael eu gwarchod rhag cael eu hanafu, dylai plant fyth fod mewn sefyllfa i gael eu hanafu"*
- ☐ *“Does neb yn ffonio Childline oherwydd rwy'n meddwl byddai'n well ganddynt siarad gyda rhywun maen nhw'n ei nabod*

### Cwestiwn 5. Pa mor ddefnyddiol ydych chi'n credu yw’r canllawiau drafft?

| | Sylwadau | % o'r bleidlais |
|---|---|---|
| **Defnyddiol iawn** | ☐ *“Defnyddiol i fi ac eraill sydd ddim yn gwybod llawr am wrth-fwlio”*<br>☐ *“Defnyddiol iawn oherwydd mae'n haws i ddeall i ddarllenwyr ifanc”*<br>☐ *“Y canllawiau yn ddefnyddiol ond dylai'r geiriau fod yn haws”*<br>☐ *“Mwy o liwiau, lluniau ac iaith i blant ieuengach”*<br>☐ *“Mae'n dda oherwydd gall pobl helpu”*<br>☐ *“Defnyddiol iawn i ysgolion ond mae angen mwy o luniau i blant llai”*<br>☐ *“Mae'n eithaf defnyddiol oherwydd mae'n dweud wrth pobl i beidio bwlio”*<br>☐ *“Dylech drin pobl y ffordd hoffech gael eich trin”* | **53%** |
| **Defnyddiol** | ☐ *“Mae'r canllawiau yn dda ond angen mwy o luniau i blant ieuengach”*<br>☐ *“Defnyddiol iawn i unrhyw un”*<br>☐ *“Rhywbeth fel cymeriad cartŵn i'w wneud yn fwy cyfeillgar”*<br>☐ *“Rwy'n credu ei fod yn dda ar gyfer pob plentyn”* | **20%** |
| **Ddim yn siŵr** | ☐ *“Dylai pobl ddefnyddio llai o eiriau”*<br>☐ *“Mwy o luniau, addas i blant" / "Ychwanegu lluniau, addas i blant"*<br>☐ *“Angen bod yn fwy cyfeillgar, gwneud fersiwn lluniau a fersiwn dim lluniau"* | **20%** |
| **Ddim yn ddefnyddiol iawn** | ☐ *“Gwneud yn fwy addas i blant"*<br>☐ *“Gwnewch yn fwy addas i blant gyda lluniau”* | **7%** |
| **Ddim yn ddefnyddiol** | | **0%** |

**Cwestiwn 6: Pa rhai o'r enwau yma y byddech yn eu hoffi ar gyfer y canllawiau gwrth-fwlio newydd?**

| Opsiynau | Pleidlais % | Trefn |
|---|---|---|
| Dim un o'r enwau yma (gweler tud. 15 am fanylion) | **36%** | **1** |
| "Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a threchu bwlio" | **26%** | **2** |
| "Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a threchu bwlio | **15%** | **3 (hafal)** |
| "Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a herio bwlio | **15%** | **3 (hafal)** |
| "Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a herio bwlio" | **9%** | **4** |

**Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, pa effaith bydd y canllawiau drafft yn eu cael ar y Gymraeg?**

| Opsiwn | Ymatebion % |
|---|---|
| Effaith gadarnhaol | **62%** |
| Effaith negyddol | **0%** |
| Ddim yn siŵr | **38%** |

**Cwestiwn 8: Oes unrhyw beth arall hoffech ei ddweud?**

**Detholiad o sylwadau:**

*"Rydym angen helpu bwlis, fel eu bod yn stopio"*
*"Yn y llyfr mae angen mwy o luniau ar gyfer plant bach"*
*"Pam fod pobl yn bwlio?"*
*"Rwy'n gobeithio bydd y daflen yn gwneud gwahaniaeth, fel bod bwlio yn stopio digwydd"*

*"Rwy'n gobeithio bod y llyfr yma yn cael ei wneud i stopio bwlio, nid i roi syniadau i eraill ar sut i fwlio"*
*"Rwy'n gobeithio cyn hir bydd seiber-fwlio yn stopio o ganlyniad i'r canllaw yma"*
*"Rwy'n gobeithio bydd y gwrth-fwlio ar gael mewn ieithoedd eraill"*
*"Rwy'n poeni am ysgol uwchradd - gallan nhw fwlio" / "poeni am fwlio yn ysgol uwchradd"*

*"Rwy'n credu fod y canllawiau yn ddefnyddiol, ond dylai'r geiriau fod yn fwy addas i blant a'r teitl yn fwy bachog oherwydd byddai plant ddim yn ei ddeall. Mae bwlio yn rhywbeth sydd angen stopio, ac rwy'n poeni fod plant ifanc yn fwy tebygol o gael eu bwlio"*

# 4. Dulliau

Defnyddiodd Dynamix ystod o ddulliau ymgynghori cyfranogol a rhyngweithiol i gasglu barn y cyfranogwyr ar y cwestiynau ymgynghoriad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Isod mae esboniad byr o bob un o'r dulliau a ddefnyddiwyd a'r rhesymeg tros eu defnyddio.

**Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau wedi eu hesbonio'n glir?**
**Cwestiwn 2: A yw'r canllawiau yn hawdd eu deall?**

**Dull:** Targed Dot

Ar gyfer y cwestiynau yma gofynnwyd i'r cyfranogwyr osod sticer ar y targedau yn unol â'u hymatebion.

Gan ddibynnu ar eu barn …

- Roedd y canllawiau drafft yn glir, gosod eu sticer ar y **Gwyrdd**
- Nid oedd y canllawiau drafft yn glir, gosod y sticer ar y **Coch**
- Os nad oeddent yn siŵr byddent yn gosod eu sticer ar y **Melyn**



**Cwestiwn 3: A yw'r canllawiau drafft gwrth-fwlio yn ymgysylltu gyda phrosiectau eraill rydych chi'n gwybod amdanynt sydd yn cefnogi plant a phobl ifanc?**

**Dull:** Siart Dwylo Cefnogol

Ar gyfer y gweithgaredd hwn gofynnom i'r cyfranogwyr feddwl am asiantaethau neu brosiectau sydd yn helpu neu yn cefnogi plant a phobl ifanc, ac yna gofynnom a ydynt yn meddwl fod y canllawiau drafft gwrth-fwlio yn ymgysylltu gyda'r gwasanaethau hynny. Gofynnom i'r cyfranogwyr ysgrifennu enwau'r gwasanaethau ar y dwylo cefnogol a'i gosod ar y bwrdd gyda:

- Ydyn - yn ymgysylltu â'r canllawiau
- Na – ddim yn ymgysylltu â'r canllawiau
- Ddim yn siŵr – ddim yn siŵr os yw'n ymgysylltu â'r canllawiau






## Cwestiwn 4: Oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau?

**Dull: Wal Graffiti**



Ar gyfer y cwestiwn hwn fe ofynnom i'r cyfranogwyr dynnu llun, ysgrifennu neu sgriblan ar y 'Wal Graffiti'.

Gofynnom i'r cyfranogwyr os oedd unrhyw beth ar goll o'r canllawiau drafft? Ysgrifennon nhw eu sylwadau ar y wal graffiti.

Rydym yn aml yn defnyddio'r dull hwn fel ffordd o ganiatáu cyfranogwyr i fod yn greadigol gydag unrhyw sylwadau ychwanegol.

## Cwestiwn 5: Pa mor ddefnyddiol ydych chi'n teimlo yw'r canllawiau drafft?




**Dull: Thermomedr**

Ar gyfer y cwestiwn hwn gofynnom i'r cyfranogwyr drefnu pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau drafft ar raddfa o annefnyddiol i ddefnyddiol iawn.

Gofynnom i'r dysgwyr osod nodyn post-it ar y thermomedr yn yr adran briodol. Cawsant hefyd gyfle i ysgrifennu unrhyw sylwadau ychwanegol ar eu post-it, naill ai gyda sylwadau cyffredinol neu ffyrdd mwy penodol o wneud y canllawiau drafft yn fwy defnyddiol.

Rydym yn aml yn defnyddio'r math hwn o ddull i gasglu barn mewn ffordd fwy gweledol a diddorol. Mae'r dull hwn yn ein galluogi i gasglu barn gyffredinol y grŵp yn gyflym.


## Cwestiwn 6: Pa rhai o'r enwau yma y byddech yn eu hoffi ar gyfer y canllawiau gwrth-fwlio newydd?

**Dull: Rho dy arian ar dy air**

Ar gyfer y gweithgaredd hwn roeddem eisiau i'r bobl ifanc bleidleisio ar eu dewisiadau ar gyfer enwau posib i'r canllawiau gwrth-fwlio.

Fe gafodd bawb pum pleidlais mewn ffurf 5 x 1c a rhoddwyd y cyfle iddynt **'rhoi eu harian ar eu gair'**.  Defnyddiwyd y ceiniogau i'w rhoi yn y potiau perthnasol.

Roedd modd iddynt rannu'r ceiniogau allan neu roi mwy nag un geiniog yn yr un pot.




**Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, pa effaith bydd y canllawiau drafft yn eu cael ar y Gymraeg?**

**Dull: Matiau Ie, Na, Efallai**

Yn y gweithgaredd hwn gofynnom i'r cyfranogwyr ystyried a fyddai'r canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg. Cafwyd y cyfle hefyd i wneud sylwadau. Gofynnom i'r cyfranogwyr bleidleisio gyda'u traed drwy symud i'r matiau Ie, Nau neu Ddim yn Gwybod lle'r oedd:

- ☐ Ie – Effaith gadarnhaol ar y Gymraeg
- ☐ Na – Effaith negyddol ar y Gymraeg
- ☐ **Ddim yn Gwybod** – Ddim yn siŵr pa effaith bydd yn ei gael ar y Gymraeg




**Cwestiwn 8. Oes unrhyw beth arall hoffech ei ddweud?**

**Dull: Gobeithion a Gofidiau**

Ar gyfer y cwestiwn olaf gofynnom a oedd gan y cyfranogwyr unrhyw sylwadau pellach am y canllawiau drafft. Gofynnom hefyd a oedd ganddynt unrhyw Ddymuniadau neu Bryderon / Gobeithion neu Ofidiau o ran y canllawiau. Rhoddwyd cyfle iddynt ysgrifennu unrhyw sylwadau ar ddarnau o bapur a'u gosod yn y bocsys

‘Dymuniadau a Phryderon / Gobeithion a Gofidiau’, gan sicrhau y byddai eu sylwadau yn gyfrinachol.




# 5. Canlyniadau

**Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau wedi eu hesbonio'n glir?**
**& Cwestiwn 2: A yw'r canllawiau yn hawdd eu deall?**

**Dull: Targedau Dot**

Gofynnom i’r cyfranogwyr os oeddent yn teimlo bod y canllawiau drafft wedi eu cyflwyno mewn ffordd glir a hawdd eu deall. Gofynnwyd i’r cyfranogwyr osod sticer ar ein targed.

- ☐ **Gwyrdd** os oedd yn glir/hawdd ei ddeall
- ☐ **Melyn** os nad oeddent yn siŵr
- ☐ **Coch** os allai fod yn fwy clir/hawdd ei ddeall

| **C1 - A yw’r canllawiau wedi eu hesbonio’n glir** | | **C2 - A yw’r canllawiau yn hawdd eu deall** | |
|---|---|---|---|
| **Ydyn** | **65%** | **Ydyn** | **36%** |
| **Ddim yn Siŵr** | **35%** | **Ddim yn Siŵr** | **40%** |
| **Na** | **0%** | **Na** | **14%** |

## Casgliadau/Themâu

**Cwestiwn 1.**

Roedd y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft wedi eu hesbonio’n glir (65%), gyda (35%) yn methu penderfynu os oeddent wedi eu hesbonio’n glir ai peidio. Nid oedd unrhyw un wedi dweud nad oedd y canllawiau drafft wedi eu hesbonio’n glir.

**Cwestiwn 2.**

Ychydig dros traean oedd wedi dweud bod y canllawiau drafft yn hawdd eu deall (36%) tra roedd ychydig mwy (40%) ddim yn siŵr pa mor hawdd roeddent i’w deall. Mae’n bosib bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn rhy anodd i ddysgwyr iau ac efallai y byddai’n well gan rhai mwy o wybodaeth drwy ffurf lluniau. Gall hynny esbonio pam bod tua 14% wedi dweud nad oedd y canllawiau yn hawdd eu deall.

### Pwyntiau Pwysig – Ar gyfer gwneud pethau yn glir ac yn hawdd eu deall

Yn y gweithgaredd hwn gofynnom i’r cyfranogwyr rhoi eu hawgrymiadau gorau i ni ar sut i wneud y canllawiau drafft yn glir ac yn hawdd eu deall. Ein bwriad yw y bydd eu cyngor ac adborth yn galluogi Llywodraeth Cymru i greu canllawiau clir ac adnoddau sydd yn hawdd i ddefnyddwyr.

- ☐ *Mwy o luniau*
- ☐ *Dim gormod o ysgrifen*
- ☐ *Mwy wedi ei rhannu allan*
- ☐ *Mwy lliwgar/llachar*
- ☐ *Mwy o lythyron am fwlio*
- ☐ *Lluniau ar bob tudalen*
- ☐ *Iaith gyffrous, hwyliog fel Harry Potter*
- ☐ *Llythyrau i fynd adre*
- ☐ *Rhifau sefydliadau*
- ☐ *Cliriach fel eu bod yn fwy tebyg*
- ☐ *Un haws eto i blant llai*
- ☐ *Gallai plant Derbyn gael trafferth*
- ☐ *Ysgrifen mwy o faint, mwy o luniau*
- ☐ *Fideo blynyddoedd cynnar - rhyngweithiol*
- ☐ *Mwy o gysylltiadau gyda'r cartref*
- ☐ *Mwy o ieithoedd byd-eang*
- ☐ *Geiriau byrrach*
- ☐ *Llai o eiriau cymhleth*
- ☐ *Angen dweud bod y frwydr werth ei wneud ar y diwedd, os nad oeddent wedi deall, yna fe fyddent*
- ☐ *Siarad am ffyrdd gwahanol o fwlio a beth allai ddigwydd*
- ☐ *Edrych yn lliwgar a hwyliog*
- ☐ *Mwy o ddarluniau - gwneud rhai eich hun*
- ☐ *Mae cael fersiwn Gymraeg yn ddefnyddiol*
- ☐ *Byddai cael tudalen gofidiau yn dda*
- ☐ *Byddai cael tudalen gobeithion yn dda*
- ☐ *Hawdd i fi ei ddeall, anoddach i bobl ifanc*
- ☐ *Iaith bydd pob ieuengach yn deall, 5 mlwydd oed +*
- ☐ *Gall bwlio ddigwydd o ifanc i hŷn*
- ☐ *Dangoswch nad yw'n dda o oed ifanc*
- ☐ *Mwy o liwiau a lluniau i'r rheiny sydd ddim yn hoff o ddarllen*
- ☐ *Ysgrifen mwy o faint*
- ☐ *Addas i blant*
- ☐ *Codau QR i ddolenni*
- ☐ *Efallai bydd plant llai yn ei gael yn anodd*
- ☐ *Os oes gennych chi anableddau yna bydd yn anoddach*
- ☐ *Fideos (Codau QR)*

**Casgliadau/Themâu:**

Roedd gan y cyfranogwyr syniadau clir o sut i wneud y wybodaeth yn haws ei ddeall, gan gynnwys:

- ☐ mwy o luniau
- ☐ mwy o ddefnydd o liwiau
- ☐ defnyddio iaith gyffrous a llai o eiriau cymhleth
- ☐ defnyddio codau QR fel dolenni i adnoddau eraill
- ☐ mwy o botensial ymwneud â'r testun
- ☐ dewisiadau eraill yn hytrach na gwybodaeth wedi ei ysgrifennu, fel fideo i blant ieuengach
- ☐ gadewch i bobl wybod ei fod yn bodoli.

**Cwestiwn 3. A yw'r canllawiau drafft yn ymgysylltu gyda'r asiantaethau cefnogi yma?**
**Dull: Siart Dwylo Cefnogol**

Ar gyfer y gweithgaredd hwn gofynnom i'r bobl ifanc feddwl am asiantaethau neu brosiectau sydd yn helpu neu yn cefnogi pobl ifanc. Yna gofynnom a ydynt yn meddwl fod y canllawiau drafft gwrth-fwlio yn ymgysylltu gyda'r gwasanaethau hynny.

Gofynnom i'r cyfranogwyr ysgrifennu enwau'r gwasanaethau ar ein dwylo cefnogol a'i gosod ar y bwrdd gyda:

- Ydyn - yn ymgysylltu â'r canllawiau drafft
- Na – ddim yn ymgysylltu â'r canllawiau drafft
- Ddim yn siŵr – ddim yn siŵr os yw'n ymgysylltu â'r canllawiau drafft

| YDYN | NA | DDIM YN SIŴR |
|---|---|---|
| Childline x 8<br>Ysgol x 3<br>Athrawon x 2<br>Meic x 2<br>Drama x 4<br>NSPCC[4] x 3<br>Pêl-rwyd x 2<br>Pêl-droed x 2<br>ICC[5] x 2<br>Gymnasteg x 6<br>Fy Swydd Ysgol x 2<br>Karate<br>Heddlu<br>Move's<br>Sgowtiaid<br>Siarad ar yr X Box<br>Dawns<br>Chwarae rygbi | Nofio<br>Côr<br>Clwb Brecwast<br>Grwpiau X Box<br>Ffrangeg<br>Clwb Ieuenctid x 2<br>Clwb pêl-droed<br>Dawns x 2<br>Clybiau Coginio<br>Clwb ar ôl Ysgol | Coginio x 2<br>Dawns<br>Gymnasteg<br>Clwb Gwyddoniaeth<br>Gwyllt<br>Afancod, Cybiau a Sgowtiaid |

**Casgliadau/Themâu**

Tra bod y cyrff cenedlaethol a soniwyd amdanynt yn cael eu gweld yn gysylltiedig â'r canllawiau drafft, roedd mudiadau lleol llai e.e. clybiau brecwast, pêl-droed a darparwyr hamdden eraill yn cael eu gweld yn llai ymwybodol o faterion bwlio. Childline oedd yr asiantaeth y soniwyd amdani fwyaf gyda thua traean o'r cyfranogwyr yn ei henwi. Roedd rhai plant a phobl ifanc wedi ei gwneud yn glir nad oeddent yn siŵr sut y byddai'r canllawiau yn ymgysylltu gyda gwasanaethau eraill am nad oedd yn sôn amdanynt ryw lawer ac yn canolbwyntio'n bennaf ar sut y byddai'n effeithio ar ysgolion.

[4] National Society for the Prevention of Cruelty to Children
[5] Canolfan integredig i blant

**Cwestiwn 4. Oes unrhyw beth ar goll y dylai gael ei gynnwys?**
**Dull: Wal Graffiti**

Yn y gweithgaredd hwn gofynnom i'r cyfranogwyr ychwanegu unrhyw beth roeddent yn teimlo oedd ar goll o'r canllawiau i'n 'Wal Graffiti' mawr. Roeddent yn gallu rhoi unrhyw beth oedd ar goll, beth fyddent yn hoffi gweld mwy ohono neu beth fyddai'n ei wneud yn fwy effeithiol.

- ☐ *Gwneud cartŵn i rai bach*
- ☐ *Ysgrifen mwy o faint, ychwanegu lluniau*
- ☐ *Dweud wrth oedolyn bob tro*
- ☐ *Cardiau Adrodd*
- ☐ *Mwy addas i blant ieuengach*
- ☐ *Mae'n ddefnyddiol, ond angen iddo gael ei esbonio mewn ffordd symlach i blant ieuengach*
- ☐ *Yn ysgol dylai fod clwb sydd yn stopio bwlio ac yn rhoi cosbau gwael i fwlis*
- ☐ *Os ydych yn cael eich bwlio dylech ddweud wrth rywun rydych yn gallu ymddiried ynddyn nhw*
- ☐ *Dylai pobl sydd yn bwlio cael eu cadw i mewn amser ysgol. Dweud wrth bobl am beidio bwlio.*
- ☐ *Mwy o gamerâu, mwy o help, mwy o oedolion*
- ☐ *Ysgrifen mwy o faint a fideos i blant ieuengach*
- ☐ *Mwy o help!!! Yn gynt!!*
- ☐ *Mae gan bob plentyn yr hawl i gael eu gwarchod rhag cael eu hanafu, dylai plant fyth fod mewn sefyllfa i gael eu hanafu*
- ☐ *Mwy o ieithoedd gwrth-fwlio*
- ☐ *Cadw draw wrth y bwli*
- ☐ *Trin pobl y ffordd hoffech chi gael eich trin*
- ☐ *Mwy o liwiau a phethau hwyliog*
- ☐ *Gwneud yn siŵr fod pob plentyn yn cael digon o hapusrwydd*
- ☐ *Ceisio ei ddatrys eich hun*
- ☐ *Os ydych yn gweld rhywun yn cael eu bwlio, dylech drio ei stopio*
- ☐ *Gwneud y llyfryn yn haws ei ddeall*
- ☐ *Parchu eich gilydd*
- ☐ *Dweud wrth bobl am beidio bwlio*
- ☐ *Edrych ar y camerâu yn amlach, mwy o bethau i gael gwared ar fwlio*
- ☐ *Gwneud yn siŵr fod camerâu diogelwch yn gweithio*
- ☐ *Cadw llygad ar bobl ddrwg*
- ☐ *Mwy o liwiau, mwy o luniau, ysgrifen mwy o faint*
- ☐ *Ddylai neb fod yng nghanol dadl os nad ydynt eisiau bod*
- ☐ *Cael Dynamix i fynd i ysgolion cynradd eraill yn Abertawe*
- ☐ *Peidio bod yn gas i unrhyw un, os nad oes gennych rywbeth neis i'w ddweud, peidiwch dweud e*
- ☐ *Dylai fod gan bobl yr hawl i fyw gyda phwy bynnag maent eisiau!*
- ☐ *Mwy o athrawon*
- ☐ *Mwy o staff i helpu gyda bwlio*
- ☐ *Trio clwb neu glwb chwaraeon newydd*
- ☐ *Fideo i blant ieuengach*
- ☐ *Rhif ffôn NSPCC: 0800 1111*
- ☐ *Os ydych yn poeni a ddim eisiau dweud wrth unrhyw un, rhowch nodyn mewn bocs gofidiau*
- ☐ *Mae'n bwysig trin pobl y ffordd hoffech chi gael eich trin eich hun*
- ☐ *Peidiwch anwybyddu bwlio, dywedwch wrth rywun bob tro*
- ☐ *Mannau lle allwch ddweud eich gofidiau*

- ☐ *Sut i gynnwys athrawon*
- ☐ *Daliwch ati, mae e werth e yn y diwedd*
- ☐ *Gwell cyfathrebu gyda rhieni*
- ☐ *Ni ddylai bwlio gael ei ganiatáu*
- ☐ *Dywedwch wrth oedolyn os ydych yn poeni*
- ☐ *Does neb yn ffonio Childline oherwydd byddai'n well ganddynt siarad gyda rhywun maent yn nabod*
- ☐ *Gall Drama eich helpu gyda bwlio oherwydd gallwch amddiffyn eich hun ac eraill*
- ☐ *Os ydych yn gweld rhywun yn cael eu bwlio helpwch nhw a siaradwch amdano*

**Casgliadau/Themâu**

Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai'n bwysig i ddysgwyr ieuengach gael mynediad i'r wybodaeth yma ac felly roedd gwneud y wybodaeth yn hawdd ei ddeall yn thema allweddol.

Awgrymwyd gwneud fideos, cartwnau neu adnoddau mawr lliwgar fel ffyrdd o helpu dysgwyr ieuengach i gael mynediad at y canllawiau.

Codwyd nifer o faterion yn ymwneud ag arfer da yn eu hysgolion gan y cyfranogwyr, ynghyd â syniadau ar sut i gynnwys rhieni ac athrawon wrth leihau bwlio.

**Cwestiwn 5. Pa mor ddefnyddiol ydych chi'n teimlo yw'r canllawiau drafft gwrth-fwlio?**
**Dull: Thermomedr**

Ar gyfer y gweithgaredd hwn gofynnom i'r cyfranogwyr am eu barn ar ba mor ddefnyddiol y byddai'r canllawiau gwrth-fwlio.

| | **Sylwadau** | **% o'r bleidlais** |
|---|---|---|
| **Defnyddiol iawn** | ☐ *"Llai o eiriau, teitl newydd, ond bydd plant 5 mlwydd oed wedi eu drysu"*<br>☐ *"Mae'n dda+"*<br>☐ *"Defnyddiol i fi ac i eraill sydd ddim yn gwybod llawer am wrth-fwlio"*<br>☐ *"Mae angen lluniau ar y cefn"*<br>☐ *"Defnyddiol iawn achos mae'n haws i ddarllenwyr ifanc ei ddeall"*<br>☐ *"Rwy'n credu ei fod yn ddefnyddiol iawn oherwydd fe fydd pobl yn gwybod mwy amdano"*<br>☐ *"Mae'r canllawiau yn ddefnyddiol, ond mae angen geiriau mwy syml"*<br>☐ *"Angen mwy o luniau ac angen iddo fod yn haws ei ddeall"*<br>☐ *"Mwy o liwiau, lluniau ac iaith ar gyfer plant ieuengach"*<br>☐ *"Mae'n dda oherwydd gall pobl helpu"*<br>☐ *"Defnyddiol iawn i'r ysgol ond angen lluniau i blant llai"*<br>☐ *"Mae'n eithaf defnyddiol oherwydd mae'n dweud wrth bobl am beidio bwlio"*<br>☐ *"Trin pobl y ffordd hoffech chi gael eich trin"*<br>☐ *"Mwy o luniau i blant ieuengach" / "Angen mwy o luniau"*<br>☐ *"Mwy o dudalennau"* | **53%** |
| **Defnyddiol** | ☐ *"Mae'r canllaw yn dda ond angen mwy o luniau i blant ieuengach"*<br>☐ *"Defnyddiol iawn i unrhyw un"*<br>☐ *"Angen mwy o luniau"*<br>☐ *"Rhywbeth fel cymeriad cartŵn i'w wneud yn fwy cyfeillgar"*<br>☐ *"Mae'n dda i bob plentyn"* | **20%** |

| | | |
|---|---|---|
| **Ddim yn Siŵr** | ☐ *"Angen i bobl ddefnyddio llai o eiriau"*<br>☐ *"Mwy o luniau / addas i blant" / "Ychwanegu lluniau, mwy addas i blant"*<br>☐ *"Ei wneud yn fwy cyfeillgar drwy ychwanegu mwy o luniau"*<br>☐ *"Angen iddo fod yn fwy cyfeillgar, gwneud un gyda lluniau ac un heb luniau"* | **20%** |
| **Ddim mor ddefnyddiol** | ☐ *"Gwneud e'n fwy addas i blant drwy ddefnyddio lluniau"* | **7%** |
| **Annefnyddiol** | | **0%** |

**Casgliadau/Themâu**

Mae canlyniadau'r gweithgaredd yn dangos bod 73% o'r cyfranogwyr hwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft yn ddefnyddiol neu yn ddefnyddiol iawn, gyda dim ond 7% yn teimlo nad oedd mor ddefnyddiol. Nid oedd unrhyw un yn teimlo ei fod yn annefnyddiol.

Roedd sylwadau cadarnhaol yn cyfeirio at y buddion o rannu gwybodaeth am fwlio, a sut gall y canllawiau drafft wneud pobl yn llai tebyg o fwlio eraill neu gael ei bwlio. Teimlodd cyfranogwyr ei fod yn weddol hawdd ei ddeall ond y gallai fod yn fwy cyffrous yn weledol, yn enwedig ar gyfer plant ieuengach. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio llai o ysgrifen, mwy o luniau a lliwiau ac roedd awgrymiadau y gellir ychwanegu cymeriadau cartŵn i'w wneud yn bwnc llai bygythiol.

**Cwestiwn 6. Pa rhai o'r enwau yma y byddech yn eu hoffi ar gyfer y canllawiau gwrth-fwlio newydd?**
**Dull: Rho dy arian ar dy air**

Rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr bleidleisio ar eu hoff enw ar gyfer y canllawiau gwrth-fwlio newydd. Rhoddwyr pum pleidlais i bob unigolyn (5x 1c) a chafwyd y cyfle i 'rhoi eu harian ar eu gair' drwy ddefnyddio'r ceiniogau i bleidleisio. Roeddent yn gallu rhannu eu ceiniogau ar draws yr opsiynau neu osod mwy nag un geiniog yn yr un pot.

| Opsiynau | Pleidlais% |
|---|---|
| Dim un o'r enwau a awgrymwyd | **36%** |
| "Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a threchu bwlio" | **26%** |
| "Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a threchu bwlio | **15%** |

| | |
|---|---|
| "Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a herio bwlio | **15%** |
| "Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a herio bwlio" | **9%** |

**Teitlau eraill a awgrymwyd ar gyfer y canllawiau**

- ☐ *"Rhoi'r gorau i fwlio yn llwyr"*
- ☐ *"Mae bwlio yn ddrwg"*
- ☐ *"Cymorth i ddeall bwlio"*
- ☐ *"Dangos parch"*
- ☐ *"Nid yw Bwlio yn Cŵl"*
- ☐ *"Rhaid i fwlio stopio NAWR"*
- ☐ *"Helpu eraill a rhoi'r gorau i fwlio"*
- ☐ *"Helpwch i roi'r gorau i fwlio"*
- ☐ *"Taflen gwrth-fwlio"*
- ☐ *"Hawliau a beth i'w wneud os ydych yn cael eich bwlio"*
- ☐ *"Sut i stopio bwlio"*
- ☐ *"Cymorth i stopio bwlio"*
- ☐ *"Helpwch ni i roi'r gorau i fwlio"*
- ☐ *"Mae'n anodd i blant ieuengach"*

**Casgliadau/Themâu**

Y dewis cyntaf oedd:
**"Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a threchu bwlio"**
Gyda'r teitl tebyg, **"Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a herio bwlio"** yn gydradd ail gyda **"Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a threchu bwlio"**

Roedd nifer o awgrymiadau am deitlau gwahanol, gyda'r mwyafrif yn fwy cryno a bachog. Roedd mwy o'r dysgwyr cynradd na'r dysgwyr uwchradd yn teimlo nad oedd yr enwau a gynigiwyd yn ddigon da ar gyfer cylchredeg y ddogfen yn gyffredinol.

Fodd bynnag, nid oedd modd cael y cyfranogwyr i bleidleisio ar y rhain. Teimlwn y byddai plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o ddarllen y wybodaeth petai ganddo deitl symlach.

**Cwestiwn 7. Yn eich barn chi, pa effaith bydd y canllawiau drafft yn eu cael ar y Gymraeg?**

**Dull: Matiau Ie, Na, Ddim yn Gwybod**

Yn y gweithgaredd hwn gofynnom i'r cyfranogwyr ystyried a fyddai'r canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg. Roedd modd ymateb mewn tair ffordd wahanol….

- ☐ **Ie** – Effaith gadarnhaol ar y Gymraeg
- ☐ **Na** – Effaith negyddol ar y Gymraeg
- ☐ **Ddim yn Gwybod** – Ddim yn siŵr pa effaith bydd yn ei gael ar y Gymraeg

| Opsiynau | Ymatebion |
|---|---|
| Ie/Effaith gadarnhaol | **62%** |
| Na/Effaith negyddol | **0%** |
| Ddim yn Gwybod | **38%** |

**Sylwadau:**
*"Byddai cael llyfrynnau yn y Gymraeg yn syniad ardderchog fel bod ysgolion Cymraeg yn gallu cymryd rhan hefyd / Mae'n ddefnyddiol rhoi canllawiau i'r ysgolion"*
*"Dylai'r canllawiau ddangos beth i'w wneud os yw bwlio yn digwydd, does dim ots os ydych yn siarad Cymraeg neu Saesneg, mae bwlio yn digwydd mewn unrhyw iaith"*
*"Fe ddylai ei wneud yn llai tebygol y bydd pobl yn cael eu bwlio am siarad ieithoedd eraill, gan gynnwys Cymraeg"*

**Casgliadau/Themâu**

Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn teimlo y byddai'r canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ac na fyddent yn gweithio yn erbyn y Gymraeg.

Serch hynny, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn ansicr pa effaith y byddai'r canllawiau drafft yn eu cael. Gan nad yw'r Gymraeg yn cael ei drafod llawer yn y canllawiau drafft roedd nifer o'r cyfranogwyr yn ansicr o'r effaith ac felly ddim yn teimlo ddigon hyderus i ddweud ie neu na.

Wrth edrych ar rhai sylwadau gellir dweud fod cyfranogwyr yn teimlo ei fod yn bwysig bod fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r canllawiau ar gael i ysgolion, gan fod bwlio yn gallu digwydd mewn unrhyw ysgol beth bynnag ei iaith.

Gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg teimlodd rhai y byddai siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol o gael eu bwlio oherwydd eu dewis iaith. Gallai hyn arwain at fwy o blant a phobl ifanc yn teimlo'n hyderus i siarad neu ddysgu Cymraeg.

**Cwestiwn 8. Oes unrhyw beth arall hoffech ei ddweud?**
**Dull: Bocsys Gobeithion a Gofidiau**

Ar gyfer y cwestiwn olaf gofynnom i'r cyfranogwyr am unrhyw sylwadau ar y canllawiau drafft, gofynnom hefyd a oedd ganddyn nhw unrhyw 'Dymuniadau neu Bryderon' / 'Gobeithion a Gofidiau' ynghylch y canllawiau drafft.

**Dymuniadau/ Gobeithion**

- ☐ "*Gobeithio bydd bwlio yn digwydd mwy anaml"*
- ☐ *"Gobeithio bydd y daflen yn gwneud gwahaniaeth, fel bod bwlio yn stopio digwydd"*
- ☐ *"Bydd bwlio yn stopio, a phawb yn cael eu parchu"*
- ☐ *"Parchu pawb, sut bynnag maent yn edrych"*
- ☐ *"Pobl ddim yn bwlio mwyach"*
- ☐ *"Gobeithio bydd mwy o bosteri a fydd yn helpu"*
- ☐ *"Gobeithio bydd pobl yn cymryd pob dim i mewn"*

- ☐ *“Gobeithio bydd mwy o luniau a lliwiau i blant iau”*
- ☐ *“Gobeithio os allwn ni wrthwynebu bwlio a dweud wrth oedolyn pan nad yw pethau’n iawn, rwy’n obeithiol y gallwn oroesi bwlio”*
- ☐ *“Rwy'n gobeithio bod y llyfr yma yn cael ei wneud i stopio bwlio, nid i roi syniadau i eraill ar sut i fwlio”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd bwlio yn stopio, bydd pobl yn dechrau bod mwy caredig i’w gilydd”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd rhywun yn rhoi’r gorau i fwlio”*
- ☐ *“I helpu pobl sy’n bwlio ac nid gweiddi”*
- ☐ *“Gobeithio bydd pobl yn rhoi’r gorau i fwlio oherwydd rwy’n gwybod sut mae’n teimlo”*
- ☐ *“Rwy'n gobeithio cyn hir bydd seiber-fwlio yn stopio o ganlyniad i'r canllaw yma”*
- ☐ *“Does gen i ddim gofidiau”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd cymorth ar gael i blant sydd ag anghenion iechyd meddwl ac yn cael eu bwlio oherwydd hynny”*
- ☐ *“Gallai newid bywydau pobl”*
- ☐ *“Hoffwn ddweud ei fod yn dda oherwydd mae’r daflen yn dda”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio fod pawb yn deall beth yw bwlio ac yn derbyn y neges”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio fod pawb yn deall effaith bwlio”*
- ☐ *“Poster fydd â lluniau a llai o ysgrifen”*
- ☐ *“Mae’r canllawiau yn beth da”*
- ☐ *“Bydd nifer o ddarllenwyr ifanc yn ei ddarllen”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio na fydd unrhyw fwlis”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd y gwrth-fwlio ar gael mewn ieithoedd eraill ”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd ein syniadau yn helpu”*
- ☐ *“Gall plant symud dosbarth os yn anhapus”*
- ☐ *“Bydd bwlio yn diflannu am byth”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd mathau eraill o fwlio yn stopio”*
- ☐ *“Pam mae mor gymhleth? Byddai'n well pe bai'n fwy syml”*
- ☐ *“Rwy'n gobeithio gweld fy nheulu”*
- ☐ *“Bydd bwlio yn stopio a bydd mwy o bobl bositif”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd yn gwneud gwahaniaeth”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd bwlio yn stopio cyn hir, bydd yn gwneud y byd yn lle gwell”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd fy chwaer ddim yn cael ei bwlio rhagor”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd y llyfr hwn yn haws i blant bach neu fe allan nhw wneud cartŵn i’r rhai ieuengach”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bydd bwlio yn stopio am byth”*
- ☐ *“Rwy’n gobeithio bod ein syniadau yn dda”*
- ☐ *“Nad yw unrhyw un sydd yn mynd trwy amser anodd ar ben eu hunain”*

**Pryderon / Gofidiau**

- ☐ *“Rwy’n poeni na fydd bwlis yn stopio”*
- ☐ *“Ni ddylai unrhyw un deimlo’n unig”*
- ☐ *“Ni fydd y llyfr yn gwneud gwahaniaeth a bydd pobl yn parhau i fwlio”*
- ☐ *“Does neb yn sylweddoli fod merched hefyd yn bwlio bechgyn”*
- ☐ *“Rwy’n poeni am bobl yn cael poen”*
- ☐ *“Rwy’n poeni bydd y llyfr hwn yn rhoi syniadau i’r bwlis ar sut i wneud i eraill deimlo yn fach neu i fwlio eraill”*
- ☐ *“Rwy’n poeni nad yw pobl yn deall y neges”*

- ☐ *"Rwy'n poeni fod mwy o fwlis yn dod bob blwyddyn"*
- ☐ *"Y bydd rhywun yn dod at fy ffrindiau ac yn dechrau gwneud hwyl am eu pennau"*
- ☐ *"Dydw i ddim eisiau i bobl chwarae fortnite"*
- ☐ *"Rwy'n poeni fod bwlio/seiber-fwlio yn datblygu mwy a mwy a bydd y byd i gyd yn lle peryglus"*
- ☐ *"Bod cyfradd hunanladdiad yn cynyddu oherwydd bwlio"*
- ☐ *"Rwy'n poeni bydd pobl yn dal i gael eu bwlio"*
- ☐ *"Rwy'n poeni am ysgol uwchradd - gallan nhw fwlio" / "Poeni am fwlio yn ysgol uwchradd"*
- ☐ *"Rwy'n credu bod y canllawiau yn ddefnyddiol, ond dylai'r geiriau fod yn addas i blant a'r teitl yn fwy bachog oherwydd fydd plant ddim yn ei ddeall. Mae bwlio yn rhywbeth sydd angen newid, ac rwy'n poeni bydd plant ieuengach yn fwy tebygol o gael eu bwlio"*
- ☐ *"Rwy'n poeni bydd mwy o bobl greulon"*
- ☐ *"Rwyf eisiau i blant a phobl i roi'r gorau i fwlio"*
- ☐ *"Rwy'n poeni nad oes unrhyw un yn gwrando pan rwy'n trio dweud wrthyn nhw"*
- ☐ *"Mae gan bawb yr hawl i beidio cael eu bwlio, i weld teulu a ffrindiau ac i beidio bod ofn dweud wrth oedolyn"*
- ☐ *"Yn fy marn i, ddylai neb gael eu bwlio fel fi"*
- ☐ *"Rwy'n poeni na fydd pobl yn deall y llyfr"*
- ☐ *"I helpu bwlis ac i beidio gweiddi"*
- ☐ *"Rwy'n poeni am y bobl sydd yn cael eu bwlio"*
- ☐ *"Rwy'n poeni na fydd plant ieuengach yn derbyn y llyfryn ac na fydd yn gwneud gwahaniaeth iddynt"*
- ☐ *"Fydd neb yn gwrando arno ac yn parhau i'w wneud"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd bwlio yn stopio am byth ac y bydd pob person yn garedig a chymwynasgar i eraill"*
- ☐ *"Rwy'n poeni am y bobl sydd yn cael eu bwlio"*
- ☐ *"Nid wyf yn teimlo bod pobl yn fy nghredu"*
- ☐ *"Efallai nad yw ein hysgol yn gwybod beth rydym ni yn ei wybod am wrth-fwlio"*
- ☐ *"Rwy'n poeni bydd y bwlis yn fy mwlio i oherwydd rwy'n trio gwneud yr ysgol yn un lle gwell"*

Unrhyw sylwadau ychwanegol:

*"Rydym angen helpu bwlis, fel eu bod yn gallu stopio"*
*"Ychwanegu mwy o luniau"*
*"Mae angen mwy o luniau yn y llyfr ar gyfer plant bach"*
*"Rwy'n credu y gellir cael mwy o luniau ar gyfer plant ieuengach"*
*"A yw'r llyfr hyn yn mynd i gael ei drawsnewid i rywbeth arall?"*
*"Pam fod pobl yn bwlio?"*

**Casgliadau/Themâu**
Roedd nifer o obeithion ar gyfer effeithiolrwydd y gwaith ac y byddai'r canllawiau terfynol yn fwy atyniadol a hygyrch. Roedd gobaith gwirioneddol o leihau bwlio ac i'r canllawiau yma fod yn effeithiol wrth frwydro yn erbyn bwlio. Nid oedd yn broblem i'r cyfranogwyr rhestru effeithiau negyddol bwlio ac roeddent yn teimlo, gyda lleihad yn yr achosion y fwlio, y byddai bywydau ysgol dysgwyr yn llawer haws.

Roedd gofidiau y byddai pobl yn parhau i fwlio er gwaethaf y canllawiau ac os na fyddai ysgolion yn gweithredu'r canllawiau, byddai dysgwyr yn parhau i frwydro yn erbyn materion o amgylch bwlio.

Cafwyd rhai sylwadau am seiber-fwlio/bwlio ar-lein a sut mae hyn yn gallu bod yn niweidiol i blant a phobl ifanc. Roedd gobaith wrth y cyfranogwyr y byddai hyn yn cael ei gyfeirio ato yn y canllawiau ac y byddai ysgolion yn gallu dosbarthu cyngor effeithiol i ddysgwyr ar sut i fod yn ddiogel ar-lein.

# 6. Themâu

## Gweledol - hygyrchedd
Roedd yna deimlad y dylai plant, unwaith iddynt ddechrau yn yr ysgol, ddysgu am sut i stopio/leihau bwlio. Er mwyn gwneud hyn byddai angen i'r canllawiau gael eu symleiddio ymhellach, gan ddefnyddio iaith llawer haws, mwy o luniau cartwnau a lliwiau.

## Teitl
Roedd y teitlau a awgrymwyd ar gyfer y canllawiau yn cael ei gweld yn rhy 'eiriog' ac yn gymhleth i ddysgwyr oed cynradd. Yr ymdeimlad a gafwyd oedd y dylid lleihau'r teitl i rywbeth mwy 'bachog' er mwyn apelio at fwy o ddysgwyr o oedran ysgol. Roedd llawer o'r awgrymiadau a gafwyd yn fyrrach ac yn defnyddio iaith symlach.

## Barn ar y canllawiau eu hunain
Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo ei fod yn bwysig iawn i gael rhyw fath o ganllawiau gwrth-fwlio oherwydd roedd ymdeimlad y byddai o gymorth i ysgolion, athrawon a dysgwyr i frwydro yn erbyn bwlio. Roedd gobaith y byddai materion o amgylch bwlio yn cael eu lleihau, y byddai plant o oed ifanc yn gwybod mwy am effeithiau bwlio a'r ffyrdd gorau o ddelio ag ef.

## Cyrraedd ymhellach
Roedd cyfranogwyr yn teimlo y dylai gwasanaethau eraill dderbyn canllawiau gwrth-fwlio ac y dylai dull gweithredu gael ei osod mewn lle, gan sicrhau fod plant a phobl ifanc yn llai tebygol o gael eu bwlio yn yr ysgol a thu allan.

Teimlwyd bod mudiadau fel Childline a NSPCC yn ymgysylltu'n dda gyda'r canllawiau ac yn meddu ar werthoedd tebyg i'r rhai sydd yn y ddogfen. Mae'n werth nodi, tu hwnt i'r ddau fudiad mawr yma, roedd rhai cyfranogwyr yn ei chael yn anodd meddwl am unrhyw asiantaethau neu fudiadau sydd yn cefnogi plant a phobl ifanc. Efallai ei bod gwerth tynnu sylw at fwy o'r asiantaethau yma mewn dogfennau yn y dyfodol a hyrwyddo eu gwaith yn yr ysgolion.

## Effaith ar y Gymraeg

Drwy gydol y gweithdai nid oedd unrhyw deimlad y byddai'r canllawiau yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Nid oedd rhai cyfranogwyr yn siŵr o berthnasedd y cwestiwn ac nid oeddent yn gallu gweld sut byddai'r Gymraeg yn cael ei effeithio o gwbl gan y canllawiau. Er bod y canllawiau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg nid yw'r ddogfen yn sôn am yr effaith y gallai gael ar y Gymraeg, efallai y byddai hyn wedi gadael rhai cyfranogwyr yn ansicr sut i ymateb.